## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 03/02/2022 i'w hateb ar 08/02/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

1 OQ57608 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r cyllid y bydd Cymru'n ei gael gan Lywodraeth y DU i gymryd lle cyllid yr Undeb Ewropeaidd?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

2 OQ57603 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch yr argyfwng costau byw?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

3 OQ57614 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OQ57607 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth gofal iechyd yng ngorllewin Cymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OQ57606 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi trigolion a landlordiaid mewn adeiladau sydd â diffygion diogelwch tân posibl yn sgil datganiadau diweddar gan Lywodraeth y DU?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

6 OQ57584 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

7 OQ57627 **(e)**

Pa sgyrsiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r sector manwerthu ynghylch gwella effeithlonrwydd ynni tuag at garbon sero?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OQ57626 **(w)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o nifer staff Llywodraeth Cymru sydd wedi'u lleoli yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

9 OQ57630 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yn Nwyrain De Cymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ57595 **(w)**

Pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i helpu rhieni gyda chost y diwrnod ysgol?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

11 OQ57597 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r broses o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

12 OQ57583 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o faglau yng Nghymru?